# Llyfr Glas Nebo

Prif gymeriadau Llyfr Glas Nebo ydi Rowenna, a'i mab, Siôn.

Cyn 'Y Terfyn' mae Rowenna'n gweithio fel steilydd trin gwallt, ac mae Siôn yn fachgen bach yn yr ysgol, ac mae 'na sôn yn y nofel am y ffordd mae'r ddau yn ymdopi efo'u bywydau fel yna.

Mae 'na sôn fod Siôn ddim yn gwneud yn dda iawn yn yr ysgol – ei fod o yn wahanol i'r plant eraill. Rydan ni'n cael y syniad hefyd fod Rowenna'n ofnadwy o swil. Does ganddi hi ddim teulu o'i chwmpas o gwbl, does dim lot o sôn am ffrindiau, heblaw am Gaynor - sydd hefyd yn '*fos*' arni hi. Mae 'na sôn am y ffordd mae hi'n treulio'r nosweithiau yn sbïo ar ei ffôn, bod hi'n *setio* fyny delweddau *'Instagram'* perffaith er mwyn tynnu lluniau o Siôn pan oedd o'n fabi bach.

Unwaith mae'r Terfyn yn digwydd, mae bywydau'r ddau wrth gwrs yn gorfod newid yn llwyr. Maen nhw'n mynd o 'fyw' - mewn ffordd eitha tebyg i fel rydan ni'n byw rŵan, i orfod meddwl am oroesi. Pethau hollol elfennol, fatha - 'Sut maen nhw'n mynd i fwyta?', 'Lle maen nhw'n mynd i gael dŵr glân?', 'Be sy'n digwydd os ydi un ohonyn nhw'n mynd yn sâl?'. Mae bob dydd yn frwydr, ac maen nhw'n gorfod brwydro i jyst fyw.

Sut mae hyn yn eu newid nhw? Mae'r ddau yn mynd ar daith, ond maen nhw'n deithiau eitha' gwahanol. Mae Rowenna fel tasa hi'n mynd yn galed ar ôl 'Y Terfyn', fel tasa hi'n gweld fod y byd yma'n le sy'n gofyn iddi fod yn galed. Mae hi'n gorfod wynebu pethau ofnadwy, mae hi'n gweld pethau ofnadwy, a hi ydi'r fam - hi ydi'r rhiant yn y sefyllfa yma, felly mae hi'n gorfod gwarchod Siôn, a bod yn galed, a gwneud yn siŵr bod y byd ddim yn lle rhy galed iddo fo.

Ar y llaw arall, mae Siôn ei hun i'w weld yn ffynnu yn y byd newydd yma. Mae o'n wych efo planhigion, mae o'n adeiladau'r holl adeiladau bach yma o gwmpas y tŷ - y tai haul, er mwyn gallu tyfu'r planhigion. Mae 'na deimlad ei fod o wir yn llwyddo yn y byd newydd yma, er, efallai fod y byd yma ddim yn ddigon iddo fo, achos, wrth gwrs mae o'n hogyn yn ei arddegau, mae o angen pobl - efallai ychydig bach yn fwy na' Rowenna - achos o leia' mae ganddi hi'r cof o bobl eraill, ond dydi hwnna ddim gen Siôn.

Os ydan ni'n edrych ar lle mae'r cymeriadau cyn 'Y Terfyn', a lle maen nhw ar ddiwedd y nofel, mae o'n codi'r cwestiwn, reit ar ddiwedd y nofel, pan mae'r goleuadau yn dod yn ôl ac rydan ni'n teimlo efallai fod yr hen fyd - ein byd ni - yn dychwelyd, sut mae hwnna yn mynd i effeithio ar ein cymeriadau ni?

Mae 'na lot o bobl wedi gofyn i mi - ydi diweddglo Llyfr Glas Nebo yn un positif, neu ydi o'n un trist? Dwi methu penderfynu, ac mae o fyny i chi benderfynu efallai, fel darllenwyr. Ond, dwi'n rhyw deimlo efallai fod 'na gyffro ynghlwm â'r byd newydd yma i Siôn.


© Hawlfraint BBC

Ond i Rowenna, mae hi'n gwybod realiti byd yn llawn pobl, yn llawn gorfod perfformio o flaen pobl, jyst bob dydd – smalio i fod yn rhywun dydi hi ddim – a sut mae hi'n dychwelyd i'r byd yna ar ôl y profiadau mae hi wedi ei gael.


© Hawlfraint BBC